DATGANIAD I'R WASG

24 Mehefin 2009

Eryri'n gartref i Eisteddfod yr Urdd?

Nos Fercher, 1 o Orffennaf cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle, Penygroes, Gwynedd i holi barn y bobl leol a chymunedau'r ardal ynglŷn â'r posibilrwydd o wahodd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru i Wynedd yn 2012.

Mae trafodaethau cychwynnol gyda rhanbarth yr Urdd yn Eryri, yn ogystal â'r awdurdod lleol, Cyngor Gwynedd, wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Fodd bynnag, ar Orffennaf y cyntaf, mae Urdd Gobaith Cymru yn gobeithio dechrau trafodaeth gyda'r cymunedau lleol a'r cyhoedd i gefnogi'r cais i gynnal yr Ŵyl yn yr ardal yn ystod mis Mai 2012. Gwahoddir pobl o bell ac agos i'r cyfarfod cyhoeddus i ddatgan barn a chynnig cefnogaeth i'r cais ar gyfer cynnal yr Ŵyl ieuenctid hon.

Cyhaliwyd Eisteddfod yr Urdd ddiwethaf yng Ngwynedd ym 1998, yn ardal Llŷn ac Eifionydd. Yn yr Eisteddfod honno y cynhaliwyd cyngerdd arbennig yng nghwmni Bryn Terfel, a dyna ddechrau'r syniad o sefydlu Ysgoloriaeth Bryn Terfel. Ar safle enwog Penyberth y cynhaliwyd yr Ŵyl y flwyddyn honno. Bu'r Eisteddfod hefyd yn Nyffryn Nantlle ac Arfon bedair mlynedd ar bymtheg yn ôl, ym 1990.

Mae Eisteddfod yr Urdd yn dathlu carreg filltir go arbennig y flwyddyn hon, ei phenblwydd yn 80 oed. Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd gyntaf ym Mhafiliwn Corwen ym 1929. Cipiodd aelod lleol o Adran Ysgol Penygroes y gadair gyntaf erioed, Hugh John Hughes. Yn yr Eisteddofd gyntaf honno, daeth cyfanswm o 500 o ieuenctid i gystadlu, o'i chymharu â'r un nifer sy'n cystadlu yng nghystadlaeuaeth y gân actol yn unig erbyn heddiw. Yn ystod wythnos yr

Eisteddfod eleni, daeth 15,000 o bobl ifanc i gystadlu, gyda thros 40,000 yn cychwyn ar y daith gystadleuol yn eisteddfodau'r cylch a'r sir.

Yn ôl **Aled Siôn**, Cyfarwyddwr Celfyddydol ac Eisteddfod yr Urdd : "Rydym yn parhau'n awyddus i deithio hyd a lled Cymru gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, gan ei bod yn cynnig cyfleoedd arbennig i bobl ifanc gymryd rhan mewn gŵyl gelfyddydol unigryw. Mae buddiannau economaidd mawr i siroedd lle mae'r Eisteddfod yn ymweld â hi. Gan bod cytundeb ariannol blynyddol bellach gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae'r pwysau ariannol wedi ei godi oddi ysgwyddua'r cynghorau lleol sy'n cynnal yr Eisteddfod."

Dywedodd: "Rydym yn edrych ymlaen yn arw at y cyfarfod cyhoeddus hwn, er mwyn clywed barn y bobl ar lawr gwlad ynglŷn â gwahodd Eisteddfod yr Urdd i Eryri yn 2012. Mae hi'n ŵyl sy'n dod â phobl o gefndiroedd gwahanol ynghyd ac mae'n cynnig cyfleoedd euraidd i bobl ifanc yr ardal."

Bydd y cyfarfod yn dechrau am 7:30yh, nos Fercher, 1 Gorffennaf yn Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle, Penygroes, Gwynedd

Diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Llwyd, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613112, manonllwyd@urdd.org. Neu 07976 330360.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.